

Sul Addysg

Darllen: Luc 2:48–49

Yn ôl Luc, roedd ‘Iesu yn cynyddu mewn doethineb, a maintioli, a ffafr gyda Duw a’r holl bobl’ (Luc 2:52) ac mae’n awyddus i ni weld Iesu’n datblygu ar yr aelwyd yn Nasareth fel pob plentyn cyffredin. Pwysleisiwn werthoedd yr aelwyd. ‘Yr oedd y plentyn yn tyfu yn gryf ac yn llawn doethineb’ (Luc 2:40) a daw hyn i’r amlwg pan deithiodd Iesu o Nasareth i Jerwsalem yn ddeuddeg oed. Roedd hi’n dipyn o daith, oddeutu 160 milltir yn ôl a blaen. Mae’n bur debyg ei fod erbyn hyn wedi dechrau gweithio yn y gweithdy gyda’i dad, a’i fod felly’n prifio ac yn dod yn ŵr ifanc cyhyrog, corfforol a chryf. Mab y saer oedd o.

Gellir tybio fod Iesu wedi mynd i’r ysgol yn y synagog lleol, ac fel ym mhob sefydliad addysgol gwerth ei halen cafodd yno hyfforddiant a dysg i’w arwain i fyw’r bywyd helaethach y soniai amdano. Mae Luc yn rhoi ni gipolwg ar ddull yr Iddewon o addysgu, ‘Ymhen tridiau daethant o hyd iddo yn y deml, yn eistedd yng nghanol yr athrawon, yn gwrandao arnynt ac yn eu holi’ (Luc 2:46). Diddorol yw sylwi mai dull holi ac ateb oedd dull yr Iddewon o ddysgu, yn hytrach na bod un yn sefyll o’u blaen yn traethu. Maent yn eistedd mewn cylch, gyda phawb o bob oed yn chwilio am y gwirionedd gyda’i gilydd. Ymunodd Iesu yn y drafodaeth a chael cyfle i ofyn cwestiynau. Gwerth y dull hwn o ddysgu oedd bod pawb yn cael cyfle i drin a thrafod, a hynny’n ei dro yn arwain pobl i feddwl drostynt eu hunain. Ymhellach ymlaen yn ei weinidogaeth, defnyddiodd Iesu’r dull hwn o addysgu, trwy ddweud stori (dameg) a gadael i’r gwrandawyr ddarganfod ei hystyr, a byddai hynny’n ei dro yn esgor ar drafodaeth yn eu plith. Oni ddylem fabwysiadu’r dull hwn yn ein haddoliad o Sul i Sul – symud y seddau, eistedd yn gylch a rhoi cyfle i bawb drafod?

Pwrpas y daithhon i Jerwsalem oedd cydymffurfio ag arferion crefyddol ei bobl – mae Iesu’n mynd gyda’i rieni i ddathlu Gŵyl y Pasg. Ond roedd hwn yn achlysur arbennig i Iesu gan fod y bachgen yn dod yn ‘fab y

Gyfraith' ac yn derbyn drosto'i hun gyfrifoldeb personol am gynnal a chadw'r Gyfraith. Roedd ei rieni am ei fagu yn nhraddodiadau crefyddol ei genedl, ac yn rhoi iddo gariad a gofal. Roedd ei dwf ysbrydol ynghlwm wrth hyn. Gwelir pryder ei rieni pan ddarganfuwyd ei fod ar goll ar y ffordd o Jerwsalem. Daw eu gofal a'u pryder i'r amlwg hefyd pan geryddir Iesu gydag angerdd ac anwyldeb, 'Fy mhlentyn, pam y gwnaethost hyn inni?' (Luc 2:48). Ac meddai yntau wrthynt, 'Onid oeddech yn gwybod mai yn nhŷ fy Nhad y mae'n rhaid i mi fod?' (Luc 2:49). Yn y deml yn Jerwsalem daeth 'mab y Gyfraith' yn 'fab Duw'. Dywed Luc fod Iesu, wedi iddo ddod adref i Nasareth, wedi bod yn ufudd i'w rieni. Ac felly nid oedd y dieithrio ar y ffordd o Jerwsalem wedi mennu dim ar y berthynas rhyngddo a'i rieni. Mae'n amlwg i'r berthynas rhyngddo a'i rieni a rhyngddo a Duw ddyfnhau.

Myfyrdod pellach:

Pa mor bwysig ydi'r cartref i feithrin cymeriad Cristnogol?

Sut all aelwyd yr eglwys chwarae rhan yn natblygiad plant?